Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Rieni
# Mynychu'r Clinig Llygaid

# Adran Offthalmoleg

Pan fydd eich plentyn yn mynychu'r clinig bydd yn gweld gwahanol aelodau o'r tîm llygaid. Mewn rhai ymweliadau, efallai mai dim ond 1 aelod o'r tîm a welwch, mewn apwyntiadau eraill, efallai y byddwch yn gweld y tîm cyfan.  Mae hyn er mwyn helpu i leihau nifer yr ymweliadau y bydd eu hangen ar eich plentyn, ond gall olygu eich bod yma am 2-3 awr.

**Y Tîm Llygaid**


Mae'r orthoptwyr yn profi golwg, yn edrych ar symudiadau llygaid, ac yn mesur llygaid croes gan ddefnyddio gwahanol brofion.

Nyrsys y clinig a fydd yn dangos i chi ble i fynd o fewn y clinig, ac a fydd yn gweinyddu'r diferion llygaid.

Mae'r optometryddion yn gwirio'r angen am sbectol, a byddant yn rhoi presgripsiwn am sbectol neu lensys cyffwrdd os oes angen.

Offthalmolegwyr yw'r meddygon llygaid, sy'n archwilio iechyd llygaid eich plentyn, yn chwilio am unrhyw broblemau ac yn cynnig triniaeth yn ôl yr angen.

[redacted]



Pan ddaw eich plentyn i'r clinig llygaid, efallai y bydd angen iddo gael diferion llygaid yn ei lygaid.

Gelwir y diferion llygaid hyn yn Cyclopentolate, ac fe'u defnyddir i ehangu (ymledu) cannwyll y llygad (canol du eich llygad). Mae hyn yn caniatáu i'r meddyg neu'r optometrydd archwilio cefn y llygad, neu wirio'r angen am sbectol.

Fel arfer mae'n cymryd rhwng 20 a 40 munud i'r diferion llygaid weithio. Mae'r effeithiau fel arfer yn para tua 6 awr, ond gallant fod hyd at 48 awr.

Mae'r diferion llygaid Cyclopentolate yn llosgi rhyw fymryn pan fyddant yn mynd i mewn i'r llygaid, ond mae blincio'n helpu i leihau'r llosgi, ac mae hefyd yn helpu i dynnu sylw eich plentyn. Weithiau efallai y bydd angen rhoi'r diferion llygaid ddwywaith, neu ychwanegu diferion llygaid arall yn y llygad os nad yw cannwyll y llygad yn ymledu'n ddigon da.

Mae sgil-effeithiau Cyclopentolate yn cynnwys, pylu'r golwg, sensitifrwydd i olau'r haul, ac weithiau bochau coch.  Gall helpu i ddod â het a/neu sbectol haul i'r apwyntiad i'w gwisgo i fynd adref yn dilyn yr apwyntiad, ac os yw eich plentyn yn mynd yn ôl i'r ysgol, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol rhoi gwybod i'r athro y gallai ei olwg fod yn aneglur.




**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English".**